

Tasg 1

Helô, Heulwen!

1. Edrychwch ar y lluniau o wahanol rannau o'r byd a dewiswch pa sleidiau sy'n dangos effaith dda ac effaith ddrwg yr haul ar fywydau pobl.

EFFAITH DDA	EFFAITH DDRWG

Wedyn, eglurwch eich rhesymau dros eich dewis:

2. Dewiswch un o'r lluniau sy'n dangos effaith dda ac un o'r lluniau sy'n dangos effaith ddrwg yr haul. Gosodwch y lluniau yn y tabl isod, ac ysgrifennwch ddau baragraff tua 10 brawddeg o hyd i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd yn y ddau lun.

LLUN	PARAGRAFF

SLEIDIAU

SLEID 1

Adeg tywydd braf yn yr haf, mae pobl wrth eu bodd yn mynd i lan y môr. Mae digon o draethau bendigedig ar hyd a lled arfordir Cymru. Cymru hefyd yw'r wlad gyntaf yn y byd i gael llwybr cerdded ar hyd ei harfordir i gyd.

SLEID 2

Wrth i dymheredd y byd godi'n raddol, mae'n cael effaith ar y sefyllfa ym Mhegwn y Gogledd a Phegwn y De wrth i'r iâ ddechrau toddi. Mae hyn yn effeithio ar yr anifeiliaid sy'n byw yno.

SLEID 3

Mae'r haul yn denu llawer o bobl allan o'u cartrefi i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, yn enwedig chwaraeon, rhedeg ac ati.

SLEID 4

Gall tanau gwyllt ddigwydd ar dir sydd wedi bod yn sych dros gyfnod hir, yn enwedig mewn gwledydd fel Awstralia a Gogledd America. Gwres yr haul sy'n achosi'r tanau fel arfer, ond mae rhai'n cael eu cynnau'n fwriadol. Maen nhw'n gallu achosi llawer o ddifrod, gan losgi cartrefi a lladd anifeiliaid.

SLEID 5

Mae'r haul yn gallu bod yn beryglus iawn i'r croen, fel mae'r llun hwn yn dangos. Mae'n bwysig defnyddio eli haul i rwystro pelydrau uwchfioled rhag gwneud niwed, a pheidio â bod allan yn yr haul am ormod o amser pan fydd ar ei gryfaf.

SLEID 6

Dyma lun o dir sydd wedi sychu a chracio dan wres yr haul. Mae'n anodd iawn byw mewn ardaloedd fel hyn gan nad oes digon o ddŵr yno i dyfu cnydau a bwyd.

SLEID 7

Mae angen haul a gwres ar gnydau i dyfu. Ond mae angen glaw hefyd i gadw'r cnydau rhag sychu gormod.

SLEID 8

Mae tywydd braf yn amser i deuluoedd fwynhau cwmni ei gilydd a mynd am dro yn yr awyr agored. Mae digon o barciau a llwybrau creded ar gael ar hyd a lled y wlad.

SLEID 9

Llun o anialwch yw hwn – tir tywodlyd sydd i'w weld mewn rhannau poeth iawn o'r byd. Mae 33% o dir y byd yn anialwch.

SLEID 10

Mae sychder yn broblem mewn nifer o wledydd ar draws y byd, yn enwedig yn Affrica. Yno, mae'n rhaid cerdded am filltiroedd weithiau i ddod o hyd i ddŵr i'w yfed.

3. Nawr, meddyliwch am bethau sy'n dod i'ch meddwl chi wrth sôn am yr haul.
Gwnewch restr o ryw 20 gair yn cynnwys ansoddeiriau (geiriau sy'n disgrifio) ac enwau (pethau).

GEIRIAU HEULOG

GEIRFA		
CYMRAEG	DISGRIFIAD	SAESNEG
gweithgareddau	y pethau mae pobl yn eu gwneud	activities
sychder	dim digon o law	drought
bwriadol	rhywbeth sydd ddim yn digwydd trwy ddamwain	intentional
difrod	pan fydd rhywbeth yn cael ei dorri neu chwalu	damage